NASUWT CYMRU
The Teachers' Union · Undeb yr Athrawon

ATHRAWON CYFLENWI

# IECHYD A DIOGELWCH

Mae athrawon cyflenwi'n chwarae rôl hanfodol mewn codi a chynnal safonau addysgol uchel mewn ysgolion. Un o'r blaenoriaethau allweddol i NASUWT yw ymgyrchu i sicrhau hawliau proffesiynol i athrawon cyflenwi, ynghyd â sicrhau cyflogau ac amodau gwaith gweddus i'r holl athrawon cyflenwi.

Mae NASUWT wedi ei ymrwymo i sicrhau bod gan bob aelod unigol, gan gynnwys athrawon cyflenwi, yr wybodaeth y maent ei hangen ynglŷn ag iechyd a diogelwch a'r cyfrifoldebau a osodir ar awdurdodau lleol, cyflogwyr a busnesau cyflogaeth (h.y. asiantaethau cyflenwi) mewn perthynas â hyn.

Pwrpas y rhestr wirio hon yw helpu athrawon cyflenwi i gadw'n ddiogel a sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau am sicrhau iechyd a diogelwch sydd gennych o ran eich cadw eich hun a phobl eraill yn ddiogel.

Mae'n parhau i fod yn ofynnol i ysgolion a chyflogwyr asesu risgiau a chymryd yr holl gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu staff a'u disgyblion.

Disgwylir i bob ysgol sy'n defnyddio athrawon cyflenwi ddarparu unrhyw wybodaeth briodol am y trefniadau diogelwch (h.y. asesiadau risg) iddyn nhw gynted ag y bo modd ar ôl penodi athrawon cyflenwi ar gyfer gwaith.

**Cyn i chi dderbyn gwaith cyflenwi i asiantaethau/ysgolion, er mwyn cadw'n ddiogel, dylech ofyn am y canlynol:**

- ☐ Yr asesiad risg cyffredinol ar gyfer yr ysgol.
- ☐ Y trefniadau sydd ar waith i gadw athrawon cyflenwi'n ddiogel wrth gyrraedd y gweithle a rhoi gwybod eu bod yn bresennol.
- ☐ Unrhyw addasiadau rhesymol y byddwch efallai eu hangen os oes gennych chi unrhyw anabledd neu os ydych yn feichiog neu'n fam sy'n bronfwydo.
- ☐ Manylion unrhyw berson cyswllt dynodedig, os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os bydd problem neu argyfwng yn codi, gan gynnwys i ble ac i bwy y dylech roi gwybod eich bod wedi cyrraedd bob dydd.

**Fel athro cyflenwi / athrawes gyflenwi, pan fyddwch yn cyrraedd eich gwaith am y tro cyntaf yn yr ysgol (neu o flaen llaw, os yn bosibl), er mwyn cadw'n ddiogel, dylech ofyn am y canlynol:**

- ☐ Manylion y gweithdrefnau a'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod unrhyw ymwelwyr (e.e. athrawon cyflenwi) yn cael digon o amser i gael gwybod am y systemau sydd ar waith yn yr ysgol/coleg lle gwneir y gwaith cyflenwi.
- ☐ Manylion unrhyw berson cyswllt dynodedig, os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os bydd problem neu argyfwng yn codi.
- ☐ Manylion le i fynd a phwy i fynd atynt i roi gwybod eich bod wedi cyrraedd bob dydd, gan gynnwys manylion y broses o gofrestru.
- ☐ Unrhyw ganllawiau i'r staff am arferion gweithio diogel.

- [ ] Manylion ynglŷn â sut i godi unrhyw bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch.
- [ ] Manylion ynglŷn â sut i alw am gymorth, gan gynnwys cymorth cyntaf.
- [ ] Taith o amgylch safle'r ysgol, gan nodi'r ystafelloedd lle byddwch yn addysgu.
- [ ] Manylion yr ystafell cymorth cyntaf agosaf, neu'r man priodol agosaf.
- [ ] Manylion yr allanfa dân agosaf ac unrhyw gynlluniau gwacáu sydd wedi eu diwygio, gan gynnwys gweithdrefnau a llwybrau dianc.
- [ ] Manylion yr ystafell athrawon a'r toiledau.
- [ ] Copi o'r amserlen sy'n nodi egwyliau ac amseroedd cinio, yn ogystal â'r hyn a ddisgwylir gan y staff yn ystod cyfnodau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio disgyblion, fel y bo'n briodol.
- [ ] Manylion ynglŷn â sut i gael gafael ar wybodaeth berthnasol am y cynlluniau gwaith ar gyfer y pynciau y bydd disgwyl i chi eu haddysgu.
- [ ] Manylion ynglŷn â sut i gael gafael ar gyfrifiaduron (gan gynnwys gliniaduron neu gyfrifiaduron sefydlog), gyda'r manylion mewngofnodi a'r camau gweithredu i'w cymryd ar ddiwedd y diwrnod ysgol.
- [ ] Manylion unrhyw adnoddau (megis ysgrifbinnau) y gellid yn rhesymol ddisgwyl i chi eu darparu i leihau cyswllt ac ymhle y gellir eu storio'n ddiogel.
- [ ] Manylion y cynlluniau gwaith a'r rhaglenni astudio, gan gynnwys y deunyddiau addysgu perthnasol sydd ar gael, ac ymhle i gael gafael arnynt.
- [ ] Manylion yr hylif diheintio dwylo sydd ar gael, a sut i gael gafael arno, er mwyn eich galluogi i olchi eich dwylo'n aml drwy gydol y diwrnod ysgol.
- [ ] Manylion y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod ystafelloedd dosbarth a mannau gweithio'n cael eu hawyru'n dda.
- [ ] Rhestr o'r disgyblion sydd yn y dosbarth(iadau) y byddwch yn eu haddysgu, gan gynnwys manylion unrhyw gyflyrau meddygol, problemau ymddygiad, neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ynghyd â manylion y ffordd y dylent gael eu rheoli.
- [ ] Manylion unrhyw ddisgyblion y gwyddys eu bod â'r potensial i fod yn dreisgar, ynghyd â manylion y ffordd y dylent gael eu rheoli, ac unrhyw asesiadau risg sydd yn eu lle ac sydd wedi eu diwygio, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant penodol sy'n ofynnol, ynghyd â sut i fynd ati'n briodol i drefnu eich bod yn ei dderbyn.
- [ ] Manylion y broses gofrestru a'r hyn a ddisgwylir gan y disgyblion o ran symud yn briodol o amgylch safle'r ysgol rhwng gwersi, yn ystod egwyliau ac amseroedd cinio, ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.
- [ ] Manylion sy'n benodol berthnasol i drefn reoli ymddygiad yr ysgol, gan gynnwys y gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu i reoli ymddygiad yn effeithiol.
- [ ] Manylion unrhyw ddigwyddiadau, cyfarfodydd neu weithgareddau penodol a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y penodiad.
- [ ] Manylion y trefniadau ar gyfer cludiant i'r ysgol, fel y bo'n briodol.

## Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau fy iechyd a'm diogelwch fel athro cyflenwi / athrawes gyflenwi?

Er nad yw athrawon cyflenwi fel arfer wedi eu cyflogi gan yr ysgol sy'n darparu'r lleoliad gwaith (y cyfeirir ati fel y 'defnyddiwr terfynol' neu'r 'cleient' yn y ddeddfwriaeth), mae'n rhaid i'r ysgol sicrhau diogelwch ei gweithwyr dros dro, megis athrawon cyflenwi, yn yr un ffordd ag y mae i'w chyflogeion ei hun.

## Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Mae'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn gosod cyfrifoldeb ar bob cyflogwr i sicrhau iechyd a diogelwch ei gyflogeion a phobl eraill yn ei weithle, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae hyn yn cynnwys canfod ac asesu risgiau i iechyd a diogelwch, a chymryd camau i ostwng neu ddiddymu'r risgiau hyn, er mwyn sicrhau diogelwch y bobl hynny sy'n gweithio mewn ysgolion, gan gynnwys athrawon cyflenwi.

## Cydgyfrifoldeb

O dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, nid yw'r ffaith bod athrawon cyflenwi wedi eu cyflogi gan asiantaeth yn diddymu'r dyletswyddau sydd gan yr ysgol o dan y Ddeddf. Yn wir, mae gan y darparwr (h.y. yr asiantaeth gyflenwi) a'r defnyddiwr terfynol (h.y. yr ysgol) gydgyfrifoldeb am sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr asiantaeth, megis athrawon cyflenwi. Felly, mae'n rhaid i staff cyflenwi gael eu trin yn union yr un ffordd ag athrawon sydd ar gontractau parhaol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Mae hyn yr un mor berthnasol i chi os ydych yn cael eich cyflenwi gan gwmni ymbarél, am mai'r cwmni hwn yw eich cyflogwr yn ôl y gyfraith. Felly, byddai'r cwmni ymbarél yn gyfrifol am eich iechyd a'ch diogelwch, ac am gymryd camau i ymdrin â hyn, am eich bod wedi eich cyflogi ganddynt.

Fel athro cyflenwi / athrawes gyflenwi, dylech ddisgwyl i'ch asiantaeth a/neu'ch cwmni ymbarél gymryd camau rhesymol i'w sicrhau eu hunain fod unrhyw faterion iechyd a diogelwch yn derbyn sylw mewn ffordd foddhaol yn yr ysgolion y bydd disgwyl i chi weithio ynddynt o bosib yn rhan o'ch penodiadau.

Dylai'r asiantaeth roi'r wybodaeth berthnasol i chi mewn da bryd er mwyn i chi allu ymgyfarwyddo'n llawn â'r sefyllfa ar safle'r cyflogwr hwnnw gynted ag y bo modd ar ôl eich penodi.

Felly, mae angen sicrhau bod yr ysgol a'r asiantaeth gyflenwi a/neu'r cwmni ymbarél yn gweithio'n agos â'i gilydd, yn enwedig os disgwylir i chi ddilyn trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli a lleihau risgiau ar sail y system o reolaethau sydd ar waith.

Mae'r Undeb yn credu ei bod hi'n hollol briodol i athrawon cyflenwi gysylltu â pherson cyswllt i'w galluogi i esbonio'r trefniadau sydd ganddynt ar waith yn yr ysgol ar gyfer contractwyr neu weithwyr dros dro ar y safle.

Dylai'r asiantaeth hefyd sicrhau eich bod yn derbyn y manylion ynglŷn â sut i godi unrhyw bryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gweithle.

## Rôl yr 'unigolyn cymwys'

Dylai'r 'unigolyn cymwys' fod yn rhywun yn yr ysgol neu'r coleg sydd â digon o hyfforddiant a phrofiad neu wybodaeth i gynorthwyo'n drwyadl yn y broses.

Bydd lefel y gallu sy'n ofynnol yn dibynnu pa mor gymhleth yw'r sefyllfa, ond disgwylir y bydd yr unigolyn cymwys yn gallu rhoi'r cyngor ac arweiniad penodol sy'n ofynnol.

Gall hyn gynnwys y cyflogwr neu rywun yn yr ysgol neu'r coleg. Os felly, dylech ofyn pa brofiad ac arbenigedd sydd ganddynt er mwyn eich bodloni eich hun fod pob un o'r pryderon posibl sydd gennych ynglŷn â'ch sefyllfa'n derbyn sylw priodol.

## Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003

Mae Rheoliad 18 yn Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003 hefyd yn rhoi disgwyliad ar asiantaethau i sicrhau a darparu gwybodaeth am bob ysgol,

gan gynnwys unrhyw risgiau neu unrhyw broblemau ynglŷn ag iechyd a diogelwch a welir mewn asesiadau risg trwyadl, gan gynnwys y risg o ddal y clefyd COVID-19. Ymhellach, os na fydd y penodiad yn pennu cyfnod hysbysu, mae'r Rheoliadau Ymddygiad yn cynnwys darpariaethau sy'n eich caniatáu i adael yr ysgol unrhyw bryd os byddwch yn teimlo'n anniogel, gan gadw'r hawl i gael eich talu am y gwaith yr ydych wedi ei wneud hyd hynny.

## Gorchymyn 2021 (Amddiffyn rhag Anfantais mewn Achosion Iechyd a Diogelwch) (Diwygio) Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (SI 2021/618)

Daeth Gorchymyn 2021 *(Amddiffyn rhag Anfantais mewn Achosion Iechyd a Diogelwch) (Diwygio) Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996* (SI 2021/618) i rym ar 31 Mai 2021, ac mae'n darparu trefniadau diogelu cyfreithiol ychwanegol i weithwyr asiantaeth, megis athrawon cyflenwi, os cânt eu disgyblu neu y gwahaniaethir yn eu herbyn am eu bod wedi cymryd camau rhesymol i'w diogelu eu hunain a phobl eraill rhag perygl difrifol ac uniongyrchol yn y gwaith.

Erbyn hyn, mae gan weithwyr asiantaeth, megis athrawon cyflenwi, yr un amddiffyniadau â chyflogeion, yn benodol mewn perthynas â sefyllfaoedd lle mae rheswm dilys gan yr athro cyflenwi / athrawes gyflenwi i gredu bod perygl difrifol ac uniongyrchol iddo/iddi ei hun neu i bobl eraill. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i adael y gweithle.

Byddai NASUWT yn cynghori athrawon cyflenwi'n gryf i gysylltu â'r Undeb i ofyn am ragor o gyngor ac arweiniad cyn iddynt geisio arfer hawliau fel y rhain.

## Eich dyletswyddau fel athro cyflenwi / athrawes gyflenwi

Er bod gan eich asiantaeth a'r ysgol gyfrifoldebau mewn perthynas â'ch iechyd a'ch diogelwch, mae hefyd ddyletswydd arnoch chi i gymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill a allai gael eu heffeithio gan eich gweithredoedd yn y gwaith.

Mae'n rhaid i chi gydweithio â'ch asiantaeth a'r defnyddiwr terfynol yn y fan lle'r ydych yn gweithio, gan gynnwys rhoi unrhyw wybodaeth iddynt a allai olygu bod angen gwneud asesiad risg cyn i chi dderbyn y penodiad yn yr ysgol.

Er enghraifft, os oes pryder ynglŷn â'ch sefyllfa sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi dderbyn penodiad yn yr ysgol, neu y dylech ei ddatgelu i'r ysgol o flaen llaw, yna dylech ddatgelu'r wybodaeth hon gynted ag y gallwch.

Unwaith y byddwch wedi datgelu gwybodaeth o'r fath i'r asiantaeth, bydd ganddynt ddyletswydd statudol i ystyried a fydd hi'n ddiogel i chi dderbyn penodiad penodol.

Fodd bynnag, ni ddylai hyn effeithio'n awtomatig ar eich gallu i dderbyn penodiad penodol, ar yr amod bod tystiolaeth sy'n dangos bod y mater hwn wedi derbyn sylw yn rhan o unrhyw asesiad risg a'ch bod wedi derbyn cyngor cyflawn cyn i chi dderbyn y penodiad.

Hoffai NASUWT glywed gan athrawon cyflenwi am unrhyw benodiad sydd wedi cael ei ganslo ar sail gwybodaeth o'r fath a ddarparwyd ganddynt. Os na fydd yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn effeithio ar eich gallu i dderbyn penodiad penodol, ond os bydd y penodiad wedi cael ei ganslo serch hynny, dylech gysylltu â NASUWT i ofyn am ragor o gyngor ac arweiniad drwy anfon e-bost at: advice@mail.nasuwt.org.uk.

## Athrawon cyflenwi sydd ag anabledd

Os ydych yn gweithio fel athro cyflenwi ac os oes gennych anabledd, mae'n ofynnol i bob cyflogwr ystyried a ydyn nhw wedi cymryd 'camau rhesymol', cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol – a hynny, os bydd angen, drwy adolygu eu polisïau, eu gweithdrefnau a'u harferion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch – i sicrhau nad yw eu cyflogeion a gweithwyr eraill (h.y. athrawon cyflenwi) sydd ag anableddau'n dioddef anfantais sylweddol.

O dan **Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999**, mae angen i gyflogwyr asesu'r risgiau i iechyd a diogelwch eu cyflogeion a phobl eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd, gan gynnwys athrawon cyflenwi. Efallai y bydd raid i'r cyflogwr geisio cyngor gan weithwyr proffesiynol eraill (e.e. gweithwyr meddygol) ynglŷn â risgiau sy'n benodol berthnasol i athrawon cyflenwi sydd ag anabledd.

Efallai y bydd angen gwneud asesiadau ar wahanol lefelau. Ar **lefel gyffredinol**, dylent archwilio pa gamau rhesymol y gellir eu cymryd i leihau'r risg i iechyd a diogelwch yn gyffredinol, gan osgoi gwahaniaethu ar sail anabledd. Bydd **asesiad risg unigol** yn ymwneud yn benodol â'r aelod o staff dan sylw, gan gynnwys athro cyflenwi /athrawes gyflenwi sydd ag anabledd.

Ond, dylid cydnabod nad yw'r ffaith fod gan rywun anabledd yn golygu o anghenraid bod angen gwneud asesiad risg unigol penodol. Yr unig bryd y byddai angen asesiad risg unigol o'r fath fyddai pan fydd yr unigolyn dan risg uwch oherwydd ei anabledd. Os bydd risgiau penodol i iechyd a diogelwch, gan gynnwys risgiau i athrawon cyflenwi sydd ag anabledd, dylid ymdrin â'r rhain yn ôl yr achos unigol.

Unwaith y byddwch wedi datgelu gwybodaeth o'r fath i'r asiantaeth, bydd ganddi ddyletswydd statudol i ystyried unrhyw drefniadau sy'n angenrheidiol i'ch galluogi i dderbyn pob penodiad yn ddiogel.

Os oes gennych anabledd, cyn i chi ddechrau gweithio fel athro cyflenwi, dylid cytuno ar fanylion unrhyw addasiadau (os oes angen rhai) sydd i gael eu gwneud i ateb eich anghenion mynediad oherwydd eich anabledd.

Os byddwch yn cael eich rhwystro rhag gweithio ar ôl datgelu anabledd, gallai hyn fod yn anghyfreithlon. Anogir aelodau'n gryf i gysylltu â NASUWT ar unwaith i ofyn am gyngor.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gyfatebol yn berthnasol i athrawon cyflenwi yn yr un ffordd ag y byddai i unrhyw weithwyr cyflogedig eraill. Mae'r dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth hon yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gofyn i reolwyr a chyrff llywodraethu ysgol, wrth wneud penderfyniadau a datblygu polisïau, roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu; ac
- feithrin cysylltiadau da ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig – rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Fel athro cyflenwi / athrawes gyflenwi, mae'r darpariaethau hyn yn eich amddiffyn rhag gwahaniaethu, erlid ac aflonyddu. Dylai pob asesiad risg a wneir gan ysgolion gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau na cheir unrhyw ddarpariaethau nac arferion sy'n gwahaniaethu yn erbyn athrawon cyflenwi sydd â nodweddion gwarchodedig, megis anableddau.

Cynghorir eich bod chi'n cael tystiolaeth ysgrifenedig glir o unrhyw waith cyflenwi a gynigir cyn i chi roi gwybod i'r cyflogwr am eich anabledd. Yn dilyn eich datgeliad, os bydd y cynigiad gwaith yn cael ei dynnu'n ôl yn sydyn, dylech gysylltu â NASUWT ar unwaith.